

Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Iau 20 Hydref yn Ystafelloedd Eleth a Eilian.

Yn bresennol

Enw	Sefydliad
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Meirede Thomas	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
Alun Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Bleddyn Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
Wyn Thomas	Grŵp Llandrillo Menai
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Myrddin Wyn Owens	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyhoedd	
Mel O'Hara	
Scot Saunders	
Pam Lee	

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad
Jackie Blackwell	Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth
Margaret Thomas	Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Elis Thomas	Dwyfor Meirionnydd

Clifford Everett	Cyngor Tref Caerdybi (Clerc)
John Griffith	Talybolion
Llyr Gruffydd	Aelod Rhanbarth Gogledd Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid /Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd
Anthony Hughes	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Kenneth P Hughes	Talybolion
John Cadwaladr Jones	Aelod o'r Cyhoedd
Richard Owain Jones	Twrcelyn
Gwilym O Jones	Llifon
Derek Owen	Cynghorau Cymuned Llanbadrig (Cadeirydd) / Llanfachraeth / Bodffordd
Albert Owen AS	Aelod Seneddol Ynys Môn
Liz Saville Roberts	Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
David Shepherd	Prifysgol Bangor
Mark Thornton	Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Pwyllgor Ynys Môn
Hywel Williams	Aelod Seneddol Arfon
Medwyn Williams	Magnox Ltd
Rebecca Williams	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan

Os yw eich enw wedi'i adael o'r rhestr hon yn anfwriadol, neu wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu yn wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn cwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com ac ewch i www.horizonnuclearpower.com

Mae'r cofnodion hyn a holl gyflwyniadau cyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar gael yn www.wylfaplg.com

1. **Croeso, cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2016 a materion yn codi – Dennis Evans, Cadeirydd**

- Croesawodd Dennis Evans (**DE**) bawb i'r cyfarfod am 5.30pm a chyflwynodd yr unigolion a fyddai'n rhoi cyflwyniadau yn ystod y noson.

- Cafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrwyd uchod, a chafwyd ar ddeall fod cryn dipyn o ymddiheuriadau am fod mwy nag un cyfarfod pwysig yn cael ei gynnal ym Môn ar y noson honno.
- Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

2. Cyflwyniad gan Sasha Davies – Pennaeth Datblygu Strategol Cymru, Pŵer Niwclear Horizon

- Cafwyd diweddariad gan Sasha Davies (**SD**) ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ers y cyfarfod diwethaf.
- Cafwyd trosolwg o'r Prosiect ganddi, a dywedodd y byddai ail gam yr ymgynghoriad ffurfiol cyn gwneud cais (PAC2) yn dod i ben ar 25 Hydref a'u bod yn awr yn canolbwyntio ar y camau nesaf, fel ceisiadau i Gyngor Sir Ynys Môn am seilwaith cysylltiedig, ac roedd gweithgarwch ar y safle'n mynd yn ei flaen yn gyflym i fod yn barod ar gyfer dechrau paratoi'r safle.
- Dywedodd **SD** fod Horizon yn hapus ag ail gam yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd 15 o arddangosfeydd cyhoeddus ledled Ynys Môn a Gogledd Cymru, yn ogystal â sesiynau galw i mewn a digwyddiadau dros dro mewn amryw o leoliadau, ac roedd tua 500 o bobl wedi ymweld â'r digwyddiadau hyn hyd yma. Maent wedi bod yn ymgynghori â phobl a chynghorau, ac mae Claire Burgess a Richard Foxhall wedi bod yn ymweld ag ysgolion i ennyn diddordeb pobl ifanc yn y Prosiect.
- Nododd **SD** hefyd fod dros £13,000 wedi'i gyfrannu at elusennau a mudiadau lleol yn ystod mis Hydref ac roedd y prosiect Ucreate wedi cael ei lansio, lle mae disgyblion yn cael eu herio i greu hysbyseb radio ar gyfer Wylfa Newydd.
- Bu ymweliad rhanddeiliaid â Japan yn yr wythnos flaenorol lle cafwyd cyfarfodydd â chydweithwyr yn Hitachi. Cafwyd sesiynau â Llywodraeth Cymru, ac roedd yn braf gweld y Gweinidog dros yr Economi a Seilwaith yn cefnogi'r prosiect.

Rhoddwyd cyfle i'r rhai oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac i ychwanegu sylwadau:

- Nododd Mairede Thomas (**MT**), a oedd yn cynrychioli Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW), fod Llywodraeth y DU yn rhoi pwyslais ar ddau fath o bŵer niwclear. Ar yr un llaw mae Hinkley Point C yn mynd ymlaen ac mae'r ymatebion i Wylfa Newydd wedi bod yn bositif, ond ar y llaw arall mae math arall o dechnoleg garbon isel, newydd - Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR). Nid yn unig y mae cefnogaeth wedi'i dangos i ddatblygu SMR, ond mae dogfen a baratowyd y llynedd yn nodi pedwar safle posibl ym Môn ar gyfer SMR oherwydd eu bod mor agos at oeryddion posibl, ac mewn ystyr fasnachol, byddai SMR yn barod erbyn diwedd y 2020au. O ran sgiliau a'r dirwedd, beth yn fwy all y datblygiad hwn (a Horizon) ei wneud ar y lefel hon i argyhoeddi'r amheuwyr? Nid oedd neb yn ymwybodol o'r safleoedd SMT arfaethedig ar Ynys Môn.
 - Ymatebodd **DE** trwy atgoffa pawb eu bod yno i drafod PAC2 ac o bwysigrwydd hynny gan mai hwn oedd y cyfle olaf.
- Roedd **MT** yn awyddus i wybod beth fyddai Horizon yn gallu ei wneud â'r peilonau, pan fyddai'n amser trosglwyddo o Wylfa. I roi pethau mewn cyd-destun ehangach, byddai ffynonellau eraill yn gysylltiedig ag Ynys Môn o ran trosglwyddo, a'r prif fater oedd y peilonau.

- Roedd y Cyng Myrddin Owens (**MO**), sy'n cynrychioli Cyngor Tref Amlwch, yn bryderus am fod yr ymgynghoriad wedi bod yn un unochrog iawn. Bwriad yr ymgynghoriad oedd edrych ar faterion fel y ffordd, Rhosgoch, yr effaith ar yr iaith Gymraeg a gwaith i bobl leol. Clywyd gwahanol bethau mewn gwahanol gyfarfodydd, ac roedd y stori yn y Daily Post yn gynharach y diwrnod hwnnw y byddai llai na hanner y gweithwyr yn dod o Ogledd Cymru yn siom enfawr. Pwysleisiodd **MO** nad oedd ymgynghoriad unochrog yn ddigon dda ac roedd eisiau gwybod pa bryd fyddai Horizon yn gwrando. Roedd ef yn bersonol wedi bod o blaid Wylfa Newydd, ond erbyn hyn mae'r rhod yn dechrau troi.
 - Cyfeiriodd Greg Evans (**GE**) yn uniongyrchol at yr erthygl yn y Daily Post, a oedd wedi bod yn syndod mawr iddo. Nid dyna oedd y targed a roddwyd iddo ef erioed. Roedd yn credu ei fod yn nes at 85% o bobl leol (yn seiliedig ar Wylfa A) yn ystod 60 mlynedd o weithredu, gyda phobl leol yn teithio llai na 50 milltir i'r safle. Roedd cyflogi pobl leol yn gwneud llawer mwy o synnwyr busnes ac roedd yn sicrhau gwerth gorau. Pwysleisiodd fod gwaith wedi'i wneud i greu cyfleoedd addysg o ran pynciau STEM ayb. Roedd yn teimlo pe byddai'r ffigur yn is na 45%, y byddai hynny'n fethiant, ac nid oedd hynny'n opsiwn. Roedd **GE** eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl leol swyddi tymor hir. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfrannu sylwadau at yr ymgynghoriad ac y byddai'r sylwadau hynny'n cael eu hystyried.
- Gofynnodd **MO** a oedd 25% o weithwyr adeiladu'n dod o fewn 1.5 awr yn ffigur derbyniol.
 - Yn ei ateb dywedodd **GE** na fyddai 100% yn bosibl a bod y targed yn isafswm o 25% oherwydd y sgiliau sydd ar gael. Y dasg yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf fydd cael gweithwyr adeiladu o'r ardal leol. Mae rhai diwydiannau a sgiliau lle nad yw hyn yn bosibl (tua 50%) a bydd yn rhaid i weithwyr eraill ddod i mewn. Ychwanegodd **SD** – i roi pethau yn eu cyd-destun ac i edrych ar ffigurau yn hytrach na chanran – roedd 25% yn 2,500 o bobl allan o'r amcangyfrif o 10,000 ar yr adeg adeiladu prysuraf. Nododd hefyd fod llawer o gydweithredu'n digwydd gyda busnesau.
- Nododd **MO** yr hoffai weld yr amser teithio'n cael ei dorri o 1.5 awr i un awr, gan ofyn sut y gellid diffinio Caer fel bod yn lleol.
 - Ymatebodd **GE** gan ddweud bod gwerth am arian yn dod o bobl leol, pobl na fydd yn teithio'n bell. Yn y tymor byr, mae hwn yn brosiect adeiladu. Yn y tymor hir, mae cyfle i gynnig gwaith am 80 i 85 mlynedd i genedlaethau o bobl.
- Nododd y Cyng Jac Jones (**JJ**) ei fod wedi cael ei gopïo i sawl e-bost a oedd yn dangos pryder am y storïau yn y Daily Post. Roedd y pryderon yn gysylltiedig â'r cam adeiladu. Os bydd llawer o bobl yn dod i mewn yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd yn cael effaith andwyol. Mae pobl yn poeni y gall y nifer godi'n gyflym, ac nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd. Roedd yn derbyn y weledigaeth dymor hir, ond pwysleisiodd fod pobl yn bryderus ynglŷn â'r cam adeiladu.
 - Eglurodd **GE** mai'r sefyllfa waethaf bosibl yw'r un sy'n dueddol o gael y sylw. Er ei bod yn ymddangos bod y ffigurau wedi codi o 8,000 i 11,000, roedd yn teimlo y byddai'r safle'n cael anhawster ymdopi ag 11,000 gyda'i gilydd. Roedd Ynys Môn yn gyfarwydd â chael 25,000 o bobl yn ystod yr haf. Mae hynny'n her i ofal iechyd, lletygarwch ac ati, ond mae pobl yn ymdopi. Bydd effaith ar yr iaith Gymraeg, ond y gobaith yw y bydd yn un bositif.
- Gofynnodd Mel O'Hara (**MOH**) o ble'r oedd y ffigur o 11,000 wedi dod.
 - Dywedodd Kieran Somers (**KS**) wrth y cyfarfod bod y ffigur yn seiliedig ar waith gan Hitachi GE. Dywedodd **SD** oherwydd nad yw hon yn dechnoleg newydd, roedd y ffigurau wedi'u dylanwadu gan waith a wnaethpwyd yn Japan, er ei fod yn derbyn y byddai lefelau

cynhyrchiant yn wahanol. Ychwanegodd **DE** fod ffigur o 5,000 wedi'i roi ar y dechrau pan oedd un adweithydd yn cael ei ystyried, ond gan y byddai dau adweithydd roedd y ffigur wedi dyblu.

- Pwysleisiodd Richard Foxhall (**RF**) ei bod yn bwysig edrych ar y wybodaeth yn neunydd ymgynghori Horizon yn ei chyd-destun yn hytrach na'r 11,000 ar ei ben ei hun.
 - Pwysleisiodd Daron Hodges (**DH**) mai'r dechrau yw hyn a'i fod yn dechrau gyda'r gymuned a phobl ifanc. Roedd yn annog pawb i gyflwyno sylwadau.
- Dywedodd Pam Lee (**PL**) nad oedd gan lawer o bobl ffydd yn yr ymgynghoriad.
 - Dywedodd **GE** er nad oedd wedi gweld dim ymatebion eto, fod pethau'n gallu newid ar ôl ymgynghori ar farn pobl.
 - Rhannodd **PL** brofiad diweddar ar drên lle'r oedd dau o bobl yn trafod yr opsiynau gorau ar gyfer ymgynghori ym Môn, a chynllunio'u gwaith yn ôl lle'r oeddent yn credu y byddent yn cael y canlyniadau gorau.
 - Diolchodd **RF** i **PL** am ddod â'r mater hwn i'w sylw a dywedodd fod y digwyddiad hwn wedi cael ei rannu â Charlie Tasker i ddelio â'r mater ar y lefel uchaf, gan fod hyn yn gwbl annerbyniol yn achos y contractwyr a oedd yn cynnal arolwg twristiaeth.
 - Roedd Alun Roberts (**AR**) o Gymunedau yn Gyntaf Ynys Môn yn bryderus am y bobl nad oedd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, a holodd am rwymedigaethau contract Horizon o safbwynt gweithluoedd a sgiliau. Pwy sy'n atebol am nad yw sgiliau'n cael eu datblygu?
 - Roedd **GE** yn hyderus y gellid darparu swyddi ar yr ochr adeiladu. Hyd yn oed os na ellid cyfreithloni hynny, y gellid ffafrio contractwyr lleol.
 - Dywedodd **SD** eu bod yn gweithio â'r Cyngor a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac roeddent yn edrych yn benodol ar hyn o bryd ar baratoi a chlirio'r safle. Dylai'r rhan fwyaf o'r swyddi fynd i bobl leol ac roedd ymgysylltu â'r gymuned yn dda o safbwynt cynnwys cyrff llawr gwlad. Pan ddaw'n fater o gaffael, byddai sgiliau ac unigolion anos eu cyrraedd yn ymuno.
 - Holodd **AR** sut y byddai rhywun sy'n ddi-waith ac yn awyddus i weithio ar y safle, e.e. fel gyrrwr peiriant tyllu, yn mynd ati i gael gwaith. Mae bwloch enfawr rhwng diweithdra a chael gwaith ar y safle, o gofio'r tystysgrifau ychwanegol y byddai'n rhaid eu cael cyn y gellid gweithio ar y safle.
 - Pwysleisiodd **SD** y byddai broceriaeth cyflogaeth a sgiliau'n edrych ar hynny'n uniongyrchol. Ychwanegodd Wyn Thomas (**WT**) fod colegau'n gweithio â phobl gyda'r nod o sicrhau swyddi. Mae Alun Griffiths, er enghraifft, wedi rhoi gwaith fel gyrrwyr peiriannau tyllu i ddau o bobl a oedd yn ddi-waith, felly mae cyfleoedd i symud ymlaen ac i sicrhau swyddi medrus.

3. Diweddariad ar gynnydd Prosiect Wylfa Newydd – Daron Hodges, Rheolwr y Safle, ar ran Greg Evans, Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynhyrchu, Pŵer Niwclear Horizon

- Bu **DH** yn disgrifio'r prif weithgarwch, gan ddweud eu bod yn awr yn arafu gyda dyfodiad tywydd y gaeaf, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod cyfnodau sych. Roedd yr archwiliadau daear oddi ar y tir ym Mhorth-y-Pistyll wedi'u cwblhau ac roedd archwiliadau archeolegol rhagarweiniol wedi cael eu cynnal ar dir sy'n eiddo i Horizon yn y Dalar Hir, y safle a ffefrir ar gyfer y cyfleusterau parcio a theithio. Roed y gwaith drilio ar y safle ac oddi ar y tir wedi'i gwblhau, ac roedd y gwaith ar Ffordd Nanner wedi cychwyn. Roedd SPEN (Scottish Power Energy Networks) hefyd wedi bod yn gweithio ar y safle, sydd hefyd yn gorffen am y tro cyn aildechrau ym mis Ionawr.

- O ran paratoi a chlirio'r safle, dywedodd **DH** fod yr ymgynghoriad wedi'i lansio'r wythnos hon. Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynlluniau rhagarweiniol ym mis Mai, cawsant eu datblygu dros yr haf ac roedd newidiadau wedi'u gwneud. Er enghraifft, roedd pobl am weld hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cadw'n agored, felly roedd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn digwydd pan fo hynny'n bosibl.
- Gofynnodd **PL** pa bryd fyddai Ffordd Nanner yn ailagor.
 - Cafwyd manylion gan **DH** am y gwaith a oedd yn cael ei wneud a chafwyd syniad pa bryd y byddai gwahanol rannau'n cael eu hailagor. Nododd hefyd fod Jones Brothers wedi bod yn gwneud y gwaith ac yn defnyddio prentisiaid. Rhoddodd un enghraifft o unigolyn, a oedd wedi bod trwy Goleg Menai, a oedd yn awyddus i gael profiad gwaith ac a oedd wedi'i gyflogi fel swyddog diogelwch ar y safle nes byddai cyfle ar gael iddo.
 - Dywedodd **AR** yr hoffai weld llawer rhagor o hynny'n digwydd.

4. Diweddariad ar yr ymgynghoriad – Kieran Somers, Pennaeth Caniatâd Cynllunio, Pŵer Niwclear Horizon

- Pwysleisiodd **KS** fod hwn yn ymgynghoriad gwirioneddol a bod yn rhaid ystyried yr holl sylwadau. Roedd yn rhaid i ymatebion fod yn fanwl, yn ogystal â'r rhesymau dros naill ai weithredu ar sylwadau neu benderfynu peidio â gweithredu arnynt. Os nad yw'r Arolygiaeth Gynllunio'n hapus ag ymgynghoriad, gall fynnu ei fod yn cael ei gynnal eto. Roedd datganiad wedi'i wneud i sicrhau bod meysydd effaith ar bobl yn cael sylw.
- Bu **KS** yn trafod paratoi a chlirio'r safle, a oedd yn cynnwys paratoi'r safle ar gyfer adeiladu, clirio nodweddion presennol a gwaith paratoi fel ffensys o amgylch terfyn y safle, draenio, manau storio a chompownd a ffyrdd dros dro. Roedd agwedd dymhorol i'r elfennau ecolegol, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gael eu gwneud yn y gwanwyn. Roedd ymgynghori ar yr agwedd hon ar y Prosiect yn digwydd ar hyn o bryd.
- Disgrifiodd **KS** y gwaith priffyrdd ar-lein, a oedd yn cynnwys gwelliannau i'r ffordd rhwng y Fali a Wylfa, sy'n golygu y bydd yn ddigon llydan i gerbydau HGV basio'i gilydd, gwelliannau i wyneb y ffordd a haenau is, gwella gweledd o fynedfeydd a chyffyrdd a chompownd i gadw deunyddiau ffyrdd a fydd yn cael eu hailgylchu.
- O ran llety ar gyfer y gweithwyr, dywedodd **KS** y bydd rhwng 8,000 a 10,000 o weithwyr adeiladu (gyda 1,500 o'r rhain yn byw ar y tir mawr) yn cefnogi'r gwaith adeiladu. Bydd cyfanswm y gweithlu adeiladu yn 10,720 ar ei uchaf, sy'n cynnwys gweithwyr oddi ar y safle. Mae'r cynigion yn cynnwys hyd at 5,700 o welyau mewn llety gweithwyr wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Mae'r asesiadau amgylcheddol yn seiliedig ar 11,700 er mwyn rhoi hyblygrwydd i addasu wrth i'r Prosiect fynd yn ei flaen. Nid Amlwch A/B yw'r cynnig a ffefrir ond nid yw wedi cael ei ddiystyru'n gyfan gwbl ar hyn o bryd. Dangosodd **KS** grynodedb a diagramau o'r opsiynau posibl ar gyfer y llety.
- Tynnodd **KS** sylw at nodau ac amcanion yr Arolwg Traffig a Thrafnidiaeth Integredig (ITTS) a bu'n trafod cludiant ar gyfer y gweithwyr, fel llwybrau bysiau a'r ddarpariaeth parcio a theithio. I ategu'r ITTS, cafodd gwelliannau ar-lein ac all-lein i briffyrdd (o'r Fali i'r Safle) eu cynnig, yn ogystal â chyfleusterau parcio a theithio yn y Dalar Hir a Chanolfan Logisteg ym Mharc Cybi fel datblygiadau cysylltiedig. Hefyd, cafodd mân welliannau eu cynnig i'r ffordd sy'n cysylltu Rhosgoch i'r A5025. Nid oeddent yn cynnig gwelliannau i'r A5025 rhwng y Safle ac Amlwch gan na fyddai cymaint o ddefnydd yn cael ei wneud o'r darn hwnnw o'r ffordd. Nid oeddent yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cyfleusterau Parcio a Theithio ar y tir mawr ychwaith, gan fod asesiadau wedi dod i'r casgliad nad oedd hynny'n angenrheidiol.

- Tynnodd **KS** sylw ar rolau Parc Cybi a chyfleusterau Parcio a Theithio'r Dalar Hir yn ogystal â Chyfleusterau Oddi ar y Safle eraill yr Orsaf Bŵer, gan gynnwys y Garej Offer Argyfwng Symudol (MEEG) a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen / Labordy Arolygon Amgylcheddol (AECC ac ESL).

Rhodddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac ychwanegu sylwadau:

- Roedd **MT** o'r farn nad oedd gofod wedi'i ganiatáu ar y safle ar gyfer gorsafoedd trawsnewidyddion, fel na fyddai cyfleuster i fynd o dan y môr. Yn ei ateb dywedodd **KS** na chaniatawyd ar gyfer hyn.

5. Diweddariad ar broses yr Asesiad Dyluniad Generig – Hitachi Nuclear Energy Europe, Ltd. Lowri Joyce, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol, Menter Newydd

- Esboniodd Lowri Joyce (**LJ**) adeiladwaith Menter Newydd a nododd fod Hitachi Nuclear Energy Europe, Ltd. yn gyfrifol am reoli gwaith Hitachi ar Fenter Newydd yn y DU, sy'n gwbl ar wahân i berchnogaeth Horizon.
- Dywedodd **LJ** fod Menter Newydd yn cael ei rheoli gan Swyddfa Reoli Rhaglen ar y Cyd. Mae'r pencadlys gerllaw Prif Swyddfa Gorfforaethol Horizon, gyda chynrychiolydd cyswllt yn swyddfa safle Wylfa Newydd Horizon.
- Eglurodd **LJ** yr hyn sydd gan Fenter Newydd i'w gynnig, gan gynnwys profiad helaeth o brosiectau seilwaith mawr a phrofiad o weithio â thechnoleg ABWR. Yn y blynyddoedd rhwng hyn a Phenderfyniad Buddsoddi Terfynol Horizon, bydd Menter Newydd yn datblygu cynllun adeiladu ar gyfer Wylfa Newydd ac yn adeiladu cadwyn gyflenwi cwmpas llawn, yn barod ar gyfer adeiladu. Maent yn disgwyl gweithio'n fwy a mwy agos â chontractwyr Haen 2 mawr, yn y maes adeiladu'n bennaf, yn y tymor byr i ganol.
- Cafwyd diweddariad gan **LJ** ar yr Asesiad Dyluniad Generig, Roedd blwyddyn brysur o'u blaenau, gyda chynigion terfynol i fod yn barod erbyn Awst 2017. Yn ystod proses y GDA, gellir gwneud sylwadau ar ddyluniad ABWR UK, a phwysleisiodd bwysigrwydd cyflwyno sylwadau / safbwyntiau cyn y dyddiad cau. Bydd y rheolyddion yn gweld y cwestiynau a ofynnir a'r ymatebion a roddir, a bydd y rhain yn cael eu defnyddio pan fyddant yn berthnasol fel help i oleuo'r asesiadau. Agorwyd y broses sylwadau ar 6 Ionawr 2014 a bydd yn parhau tan 15 Awst 2017.
- Gwahoddwyd Iwan Williams (**IW**) o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i roi diweddariad ar gysylltiad CNC yn y GDA. Eglurodd fod gwaith ar y GDA wedi bod ar droed er Ionawr 2013 ac y daw i ben ym mis Rhagfyr 2017. Roedd y swyddogion yn asesu ystod eang o ddogfennau technegol sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg a gynigir.
- Eglurodd **IW** y byddai ymgynghoriad ar y GDA yn agor ar 12 Rhagfyr am gyfnod o dri mis, o safbwynt amgylcheddol, ac roedd sesiynau gwybodaeth yn cael eu trefnu. Bydd un yn cael ei chynnal ar 30 Ionawr yng Nghemaes a'r llall ar 31 Ionawr yn Llangefni. Gofynnodd a hoffai'r grŵp gael sesiwn neu gyflwyniad ar yr asesiadau amgylcheddol. Roedd **DE** o'r farn y byddai hynny'n fuddiol iawn gan ei bod yn bwysig dros ben bod pawb yn deall y GDA.

Rhodddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac ychwanegu sylwadau:

- Gofynnodd **MT** a fyddai modd cael gwybodaeth ysgrifenedig pam nad oes modd cysylltu ABWR â chysylltiad o dan y môr. Nid oedd **IW** yn gallu rhoi manylion yn bersonol ond roedd yn fwy na hapus i anfon y cwestiwn ymlaen at un o'i gydweithwyr ONR i gael ymateb.
- Cafwyd esboniad technegol byr gan **DE**. Dywedodd nad yw hyn wedi cael ei wneud yn unman arall o'r blaen, ac nad yw'n briodol i'r un cyntaf gael ei dreialu yma.

6. Diweddariad ar ymgynghoriad y National Grid– John Shorney, Y National Grid

- Diolchodd John Shorney (**JS**), Swyddog Cysylltiadau Cymunedol y National Grid i'r Cadeirydd am y gwahoddiad. Y nod heno oedd siarad am Gysylltiad Gogledd Cymru a Chysylltu Wylfa Newydd. Cyflwynodd Gavin Crook (**GC**), Prif Reolwr y Prosiect a Graham Denison-Smith (**GDS**) Swyddog Cydsyniad, National Grid, a fyddai'n rhoi cyflwyniad.
- Pwysleisiodd **GC** fod gan y National Grid ymrwymiad cyfreithiol i wneud cysylltiadau â Wylfa Newydd a'i fod yn rhwym gan y gyfraith i wneud hynny.
- Cafodd y grŵp beth cefndir gan **GC**, gan edrych yn ôl ar Gam Un (hydref 2012) a Cham 2 (hydref 2015) a chafwyd eglurhad o'r gwaith sydd i'w wneud eto. Roedd llawer o waith wedi'i wneud i edrych ar y cysylltiadau. Cafwyd cais i edrych ar opsiwn ychwanegol, a bod hynny wedi'i wneud.
- Roedd coridorau llwybr wedi'u canfod i gysylltu Wylfa a Phentir, gyda'r nod o wneud y defnydd gorau o'r dirwedd. Roedd yn ymddangos mai'r coridor 'Oren' oedd yr opsiwn a ffefrir, gyda llinellau uwchben a chroesi o dan Afon Menai. Roedd yn rhaid i'r National Grid drefnu â Horizon i wneud gwaith ochr yn ochr, fel y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n gallu edrych ar y ddau brosiect gyda'i gilydd. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno ymhen rhyw flwyddyn, gyda'r gwaith adeiladu'n digwydd o 2019 ymlaen.
- Pwysleisiodd **JS** fod yr ymgynghoriad wedi cychwyn ac anogodd bawb i fynd draw i'r digwyddiadau ac i edrych ar y dogfennau yn y pwyntiau gwybodaeth. Y peth pwysig yn awr oedd adborth.
- Pwysleisiodd **DE** bwysigrwydd mynegi barn ac anogodd bawb i gymryd rhan yn ymgynghoriad y National Grid.

Rhodddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac ychwanegu sylwadau:

- Pwysleisiodd **MT** nad oes neb wedi dweud na all y cysylltiad fynd o dan y ddaear neu o dan y môr. Nododd y byddai gan Brif Weithredwr y National Grid sy'n ymddeol, yn dilyn cynnydd enfawr mewn elw a thwf, bensiwn wythnosol o £11,000 i edrych ymlaen ato. Eto, mae pobl Môn yn gweld gwerth eu heiddo'n gostwng am nad yw'r National Grid yn buddsoddi mewn cysylltiad tanddaearol ac nad oes dim rheswm technegol i beidio â gwneud hynny.
 - Eglurodd **GC** y gwahanol opsiynau (sef HVDC) sydd wedi cael eu hystyried ond nid oedd y dechnoleg ar gael ar hyn o bryd. Roeddent wedi ymchwilio i dechnoleg cyn belled ag yr oedd modd ac ni fyddai'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd yn addas ar gyfer y prosiect hwn. Yng nghyswllt gosod o dan y ddaear ar y tir, aeth GC ymlaen i egluro mai hanner yr her oedd bod yn fusnes sy'n cael ei reoleiddio ac atgoffodd y grŵp fod National Grid wedi'i drwyddedu i fod yn economaidd ac yn effeithlon a bod Ofgem yn craffu arno i sicrhau ei fod felly, gydag ystyriaethau ynghylch a ydy buddsoddiad yn briodol ar gyfer y DU drwyddi draw.

- Mynegodd **JJ** bryderon bod pobl Môn yn teimlo bod yr ymgynghoriad yn sarhad a bod eu barn wedi cael ei hanwybyddu.
 - Nododd **GDS** fod llawer o benderfyniadau wedi cael eu gwneud ar ôl clywed barn pobl am yr aliniad a chysylltiad tanddaearol o dan Afon Menai. Edrychid yn fanwl ar unrhyw wrthwynebiadau a phryderon, ac roedd yn bwysig dros ben datgan barn a rhannu sylwadau.

7. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd dim mater arall.

8. Cloi

Daeth y cyfarfod i ben am 19.50.